# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth

**Dydd Mercher 29 Tachwedd 2016, 12.15pm – 13.15pm**

Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel, Caerdydd

**COFNODION**

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| Arfon Williams (Siaradwr) | RSPB | (AW) |
| Alun Davies (Siaradwr) | Fferm Ifan | (AD) |
| Guto Davies (Siaradwr) | Fferm Ifan | (GD) |
| Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd) | Plaid Cymru | (LG) |
| John Griffiths AC | Llafur Cymru | |
| Mike Hedges AC | Llafur Cymru | |
| David Melding AC | Y Ceidwadwyr Cymreig | (DM) |
| Mark Isherwood AC | Y Ceidwadwyr Cymreig | |
| Huw Irranca-Davies AC | Llafur Cymru | |
| Vikki Howells AC | Llafur Cymru | |
| Siân Gwenllian AC | Plaid Cymru | |
| Roger Thomas | Cyswllt Amgylchedd Cymru | (RT) |
| Gill Bell | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol | (GB) |
| Peter Ogden | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig | (PO) |
| Russel Hobson | Gwarchod Gloÿnnod Byw Cymru | |
| Nigel Ajax-Lewis | Ymddiriedolaethau Natur Cymru; | |
| Scott Fryer | Ymddiriedolaethau Natur Cymru; | |
| Clare Dinham | Buglife | |
| Jon Cryer | RSPB | |
| Laura Cropper | RSPB | |
| Sharon Thompson | RSPB | |
| Natasha Yorke-Edgell | RSPB | |
| Annie Smith | RSPB | |
| Ian Hartrey | RSPB | |
| Rowland Pittard | Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid | |
| Karen Whitfield | Cyswllt Amgylchedd Cymru | |
| Lydia Beaman | Cyswllt Amgylchedd Cymru | |
| Liz Smith | Cyswllt Amgylchedd Cymru | |
| Dai Harris | Pennaeth Polisi Natur a’r Gangen Defnydd Tir, Llywodraeth Cymru | |
| Dr Kevin Austin | Pennaeth Strategaeth Amaethyddol, Llywodraeth Cymru | |
| Katy Orford | Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| Matt Harris | Ecolegydd, Cyngor Caerdydd | |
| Margaret Iles | Ecolegydd, Cyngor Caerffili | |

**Y prif bwyntiau o’r cyfarfod**

**1 – Sefydlu’r Grŵp a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

- Dywedodd LlG mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol yn y Pumed Cynulliad, a oedd yn golygu felly bod angen enwebu Cadeirydd.

- Enwebodd DM LlG yn Gadeirydd. Eiliwyd hyn gan MH. Diolchodd LlG iddynt am eu cefnogaeth ac fe'i hetholwyd yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol.
- Darperir yr ysgrifenyddiaeth gan Gyswllt Amgylchedd Cymru

**2 – 'Sut y dylai Polisi Rheoli Tir yn Gynaliadwy i Gymru edrych?' Arfon Williams, RSPB Cymru**

Eglurodd AW yr angen am newid yn y polisi amaethyddol oherwydd, er gwaethaf degawdau o gefnogaeth, mae'r PAC wedi methu creu diwydiant amaeth gwydn, atal difrod amgylcheddol, neu golli natur.

Mae adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2016 wedi datgelu bod dros hanner (56%) rhywogaethau'r DU a aseswyd wedi gostwng ers 1970 ac mae un o bob naw o rywogaethau tir fferm yn y DU dan fygythiad o ddiflannu – mae hyn yn un mewn 14 yng Nghymru. Tynnodd AW sylw at rai rhywogaethau sy'n dibynnu ar gynefinoedd a reolir, sy'n cael eu hyrwyddo gan Aelodau Cynulliad Cymru, fel y chwilen olew ddu, y pathew, llygoden bengron y dŵr, ac eogiaid.

Mae angen polisïau newydd sy'n unol ag ymrwymiad Cymru i ddatblygu cynaliadwy, ac sy'n adlewyrchu natur unigryw ffermio yng Nghymru. Cyflwynwyd y weledigaeth ganlynol: *"Ein gweledigaeth yw rheoli tir yn gynaliadwy a hwnnw'n cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill o ansawdd, yn diogelu'r amgylchedd ac yn cynnal cefn gwlad sy'n gyfoethog o ran natur".*

Dywedodd AW fod angen setliad ariannol teg i Gymru. Ar hyn o bryd mae Cymru yn cael 14% o'r taliadau PAC i'r DU. O dan fformiwla Barnett, byddai hyn yn cael ei leihau i 4%, a fyddai'n cael effaith ddramatig.

Tynnodd AW sylw at y safonau amgylcheddol uchel sydd wedi deillio o'r UE, gan gynnwys y Cyfarwyddebau Natur a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae angen safonau sylfaenol uchel ar gyfer setliadau yn y dyfodol yng Nghymru a ledled y DU. Rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru os ydym am sicrhau dull cynaliadwy o reoli tir sydd o fudd i holl bobl Cymru.

Rhaid i Lywodraeth Cymru allu rhoi cymorth rheoli tir yng nghyd-destun ei deddfwriaeth ei hun, a darparu dull sy'n seiliedig ar le drwy'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal.

Mae'n rhaid i bolisi yn y dyfodol gefnogi dull cynaliadwy o reoli tir sy'n cynnal ac yn gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu – mae'n rhaid iddo ddarparu ar gyfer natur a phobl a chyfrannu tuag at y nodau lles. Mae'n rhaid iddo hefyd roi gwerth am arian, felly mae angen polisi addas ar gyfer y diben sy'n gwobrwyo ffermwyr am yr hyn y maent yn ei wneud.

Wrth i ni ddechrau gofyn mwy gan ffermwyr, o ran cyflawni'r gwasanaethau amgylcheddol, bydd angen i ni gefnogi a diogelu a bydd angen i daliadau adlewyrchu'r gwaith a wnânt. Yn hytrach nag ystyried y tir yn 'Llai Ffafriol' mae'n rhaid i ni gofio gwerth uchel y tir hwn ar gyfer natur.

Rhaid rhoi terfyn hefyd ar allanoli costau, yn hytrach na'r dirywiad amgylcheddol parhaus ac mae'n rhaid i ni gael y marchnadoedd presennol i weithredu'n well.

Mae hefyd yn debygol y bydd angen i ni roi cefnogaeth ariannol i'r ffermydd llai economaidd hyfyw, er enghraifft, y rheini sy'n darparu cynefinoedd ar gyfer natur neu'n atafaelu carbon – mae'n rhaid i ni dalu am y gwasanaethau hyn. Dangosodd AW fap o Gymru a oedd yn dangos y Parciau Cenedlaethol, yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Haenau Mawn Unedig Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ardaloedd Gwarchodedig, gan ddweud y gallai'r ardaloedd hyn

ddarparu cyfleoedd ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Tynnodd AW sylw at y posibilrwydd o sicrhau ardaloedd natur a'r nwyddau cymdeithasol sy'n deillio o'r safleoedd hyn.

Eglurodd AW yr angen am gyfnod pontio rhesymol ar gyfer trefniadau newydd a pha mor bwysig y bydd hyn i'r ffermwyr mwyaf agored i niwed yn economaidd, fel y rheini yn ein sector da byw *helaeth*. Mae'r sector hwn yn aml yn ffermio ardaloedd ymylol ond sydd o werth uchel o ran natur, adnodd naturiol a thirwedd. Mae'r ffermydd hyn, y cyfeirir atynt yn aml fel HNV, yn hanfodol ar gyfer cynnal cynefinoedd bywyd gwyllt sydd hefyd yn darparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol ehangach, yn ogystal â'r gwerthoedd hamdden a thwristiaeth ehangach.

Daeth AW i'r casgliad bod arnom angen polisi rheoli tir newydd sy'n dda i'r amgylchedd, yn dda i natur, sydd o les i gymdeithas ac yn deg i ffermwyr.

**3 - Prosiect Fferm Ifan:** Rheoli Tir yn Gynaliadwy dan arweiniad ffermwyr

Mae Alun Davies a Guto Davies yn dod o Fferm Ifan yn Ysbyty Ifan ger Betws y Coed. Eglurodd AD fod ei fferm yn rhan o bartneriaeth gydweithredol sy'n cynnwys 11 o ffermydd teuluol sydd wedi'u lleoli mewn ardal fynyddig unigryw gyda chyfran uchel o fawndir. Dangosodd AD fideo (https://www.youtube.com/watch?v=YxT-q58kw0Q), a ddangoswyd yng Nghynhadledd y Partïon ym Mharis, o blant ysgol yn rapio am bwysigrwydd adfer mawn. Mae mawndir yn rhan annatod o fywyd bob dydd ar ffermydd AD a GD.

Fe'i sefydlwyd yn 2008 ac mae gan yr 11 fferm un bloc o dir (Fruddiedd a Migneint) yn nalgylch Afon Conwy. Maent yn gobeithio, trwy gydweithredu a pharhad y fferm deuluol, y gallant gynllunio ar gyfer busnes yn y dyfodol. Maent yn awyddus i gynllunio 40 mlynedd ymlaen llaw, yn hytrach na 10 mlynedd. Maent yn cyfarfod yn wythnosol ac yn y broses o gyflwyno cais i Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Maent yn cydweithio ar gyfer cyflenwi cig oen, ac yn ceisio premiwm am eu cynnyrch a gafodd ofal uchel ac sydd o werth naturiol uchel gan iddo gael ei fwydo ar borfa. Maent yn darparu cyllid i'w cymuned leol, gan gynnwys ysgolion, ysbytai a chlybiau lleol. Maent yn canolbwyntio ar weithio i'r gymuned, yr amgylchedd, busnes a'r economi, ac ar gyfer dyfodol eu busnes, yn enwedig er mwyn aelodau ifanc y teuluoedd dan sylw.

Mae'r Bartneriaeth hefyd yn cynnwys aelod-bartneriaid, gan gynnwys CEH, SENRGY-SIP, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, SNPA, Dŵr Cymru, Coed Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Multiland, a Llywodraeth Cymru. Maent yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chyda Multiland mae ganddynt ddafad ffug sy'n symud o gwmpas ac sy'n helpu gyda materion lles anifeiliaid drwy ddarparu data ar wahanol rannau o'r tir, fel tymheredd ac ati. Maent yn cael eu harwain gan y ffermwr ac yn gweithio o'r gwaelod i fyny, gan gydweithio i blannu coed a lleihau erydiad afonydd, yn ogystal â rhoi adborth ar y canlyniadau. Maent yn dilyn rheolau'r PAC ac mae AD wedi'i ardystio'n organig. Mae'r ddau ynghlwm â Glastir Uwch. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith eu bod yn ymateb i gymhellion, mae angen polisi ar waith i gefnogi'r gwaith y maent yn ei wneud. Maent yn teimlo y gallent wneud mwy ill dau, neu wneud pethau'n wahanol pe byddent yn cael y cymhellion cywir.

Eglurodd AD eu lleoliad arbennig ac y gallent atafaelu mwy o garbon, ond holodd pwy fyddai'n talu am hynny. Maent yn edrych ar fodelau busnes newydd, lle gallai taliadau am ganlyniadau gefnogi pob math o nwyddau a gwasanaethau fel y nwyddau y maent yn ddarparu ar eu cyfer, gan gynnwys carbon, dŵr glân, rheoli llifogydd, bioamrywiaeth, bwyd a thwristiaeth.

Maent yn ystyried datblygu model busnes Tâl am Wasanaethau Ecosystem (PES) newydd, y maent yn gobeithio creu mwy o farchnad ar ei gyfer lle y cânt eu talu am y canlyniadau. Nid yw hyn wedi cael ei wneud o'r blaen yng Nghymru, ond mae enghreifftiau fel y llifogydd yn

Llanrwst yn dangos y byddai'r gwaith hwn yn werthfawr iawn. Maent yn gobeithio eu bod yn creu syniadau arloesol trwy eu cais Cynllun Rheoli Cynaliadwy, ac er eu bod yn derbyn y bydd rhai pethau'n gweithio ac eraill yn methu, maent yn awyddus i dreialu prosiectau a chymryd camau bach pwysig. Maent yn teimlo bod yr awydd yno i farchnata cynnyrch gwahanol ac mae cydweithio'n bwysig iawn iddynt hwy.

**4. Trafodaeth a chwestiynau**

1. Dywedodd DM ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Croesawodd y cyflwyniadau a nododd fod Norwy yn gwrthbwyso llawer o'i charbon drwy wneud taliadau i Guyana, De America [trwy eu Partneriaeth Hinsawdd a Choedwig]. Dywedodd fod rhai pobl yn poeni bod y nifer cynyddol o dda byw yn broblem i'r amgylchedd; fel rhywun sy'n bwyta cig, dywedodd yr hoffai allu cyfiawnhau'r angen am dda byw, yn enwedig ar gyfer ffermydd yr ucheldir sy'n eu hystyried yn fwy pwysig.

2. Ymatebodd AD drwy nodi bod anifeiliaid cnoi cil [mamaliaid sy'n gallu treulio bwyd sy'n seiliedig ar blanhigion] yn arbennig o ddefnyddiol i reoli mawn. Dywedodd hefyd fod gan Fferm Ifan tua un ddafad i bob tair erw o dir yn yr haf. Nododd fod mamogiaid bridio yn hanfodol i gynnal tir fferm yr ucheldir.

3. Ychwanegodd AD y dylid cofio, er bod anifeiliaid cnoi cil yn ddefnyddiol i brosesu'r tir, bod hefyd ganddynt werth fel cynnyrch terfynol, sef cig. Dywedodd ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu bwydo ar borfa, ond na ddylai fod yn 'obsesiwn' o ran ticio blychau archfarchnadoedd.

4. Holodd DM a ddylent edrych ar sut y mae defaid yn cael eu bridio a'u magu mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd da byw (fel Fferm Ifan), ac awgrymodd y dylid eu hystyried yn fwy gwerthfawr i'r tir. Ymatebodd AD drwy ddweud bod y PAC yn annog diadelloedd i symud i lawr (yn hytrach nag i'r ucheldir). Parhaodd gan ddweud nad oedd yn credu bod y PAC yn economaidd gynaliadwy a chytunodd fod gwartheg yn werthfawr i reoli lleiniau mwy o dir.

5. Cytunodd AW, gan dynnu sylw at yr angen i ystyried aml-swyddogaethau tirweddau. Nododd fod angen rheoli ardaloedd yr ucheldir gyda'r math cywir o offer, gan gynnwys gwartheg pori sy'n well mewn cynefinoedd mwy bras. Nododd fod colli gwartheg yn bwysig i ffermwyr a chadwraethwyr, sy'n pryderu am reoli bywyd gwyllt.

6. Disgrifiodd PO y cyflwyniadau fel 'agoriad llygad', gan nodi ei bod yn ymddangos bod Brexit yn dod â phroblemau sylfaenol hirsefydlog [o reoli tir yn anghynaliadwy] i'r amlwg. Holodd a oedd model Fferm Ifan yn 'drosglwyddadwy' a beth fyddai ei angen gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hynny'n digwydd.

7. Nododd AD fod Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (SMS) yn rhoi cyfle i ffermwyr ailgreu hyn. Nododd fod gan Fferm Ifan gais yn mynd drwy'r broses ar hyn o bryd. Dywedodd eu bod yn ffodus o gael cymuned ifanc yn ei rhedeg, gan y gallant gynllunio hyd at 40-50 mlynedd ymlaen llaw. Pwysleisiodd yr angen i gael maint y peilot yn gywir; nododd fod llawer o ffermwyr eraill am ymuno â Fferm Ifan ond eu bod yn wyliadwrus o ran cynlluniau i ehangu.

8. Parhaodd AD, gan ddweud fod y Cynllun Rheoli Cynaliadwy wedi ei roi ar waith gyda chyllid yr UE. Croesawodd ymrwymiadau i barhau hyd at 2019/2020, ond dywedodd nad oedd hyn yn ddigon o amser. Byddai'n hoffi gweld ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i barhau â hyn.

9. Nododd RT fod cynllun Pontbren yn cael 'ymweliadau diddiwedd' gan wleidyddion, ond nad oes llawer yn digwydd i'w ehangu na'i ddyblygu. Cytunodd AD fod Pontbren yn arloesol iawn a'i fod yn elwa o arian ymchwil, ond ei fod yn blino ar yr holl ymweliadau gydag ychydig yn cael ei wneud ymhellach. Dywedodd nad yw Fferm Ifan yn annhebyg, er bod mwy o ucheldir yn Pontbren gyda mwy o adnoddau naturiol yn cynhyrchu nwyddau nad ydynt yn fwyd. Ychwanegodd GD fod eu cais Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cynnwys cyllideb ar gyfer contract PES (Tâl am Wasanaethau Ecosystem) i weld a allant gyflenwi i'r sector preifat.

10. Tynnodd GB sylw at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a gofynnodd a yw'n cael ei monitro a sut y gallent weld gwelliannau mewn ansawdd dŵr. Atebodd AD mai'r 'broblem' oedd bod y llinell sylfaen yn eithaf uchel, ond maent yn edrych ar gymhellion i geisio gwella ansawdd dŵr, gan gynnwys edrych ar hidlo dŵr.

**5 - Sylwadau i gloi**

Diolchodd LlG i'r siaradwyr ac awgrymodd mai'r heriau bellach yw edrych ar sut i ailgreu'r model hwn ledled Cymru. Nododd fod Brexit, sydd wedi arwain at yr angen i ail-lunio'r meysydd polisi hyn i gyd, yn rhoi cyfle i gefnogi'r mathau hyn o ymdrechion a symud ymlaen yn fwy pendant. Roedd yn gobeithio y bydd y Tâl am Wasanaethau Ecosystem yn cael ei roi ar waith yn iawn ar lawr gwlad a dywedodd y bydd angen ewyllys wleidyddol i'w yrru ymlaen.

Wrth symud ymlaen, mae'n credu y bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn ychwanegu at y drafodaeth ac yn cynnal momentwm ar y mater. Diolchodd i bawb am ddod a chroesawodd unrhyw un i anfon awgrymiadau neu syniadau ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol i'w swyddfa ef neu swyddfa WEL, trwy Karen Whitfield.